Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar Nos Fercher y 13eg o Ebrill 2011 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh

Presennol: Y Cyng. Dawn Wallace (cadeirydd), Y Maer y Cyng. Chris Parish, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Edward Thomas. Roger Phillips (Clerc y Dref)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Roy Davies, Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Cof 1 / Ebrill / 11 Ceisiadau cynllunio i'w penderfynu

E/ 24499 Estyniad ochr un llawr yn 23, Heol Latimer
Sylw: Dim gwrthwynebiad cyhyd ag y glynir wrth y rheoliadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mewn ardal gadwraeth.

E/24557 Arwydd hysbysebu ym Manc Barclays, 46, Stryd Rhosmaen.
Sylw: Dim gwrthwynebiad cyhyd ag y glynir wrth yr holl reoliadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mewn ardal gadwraeth.

E/24435 Trawsnewid ac ailwampio marchnad nwyddau rhestredig gradd 2– datblygiad arfaethedig o 13 o unedau preswyl newydd, yn cynnwys 4 o dai a 9 o fflatiau yn yr Hen Farchnad Nwyddau, Bryn Gogledd/Stryd Caerfyrddin.
Hysbysiad o gynnwys y cyhoedd yn y Broses Reoli datblygiadau
Sylw: Oherwydd bod yn rhaid i geisiadau o'r maint yma i gael eu crybwyll gerbron y Cyngor Llawn, yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor, bydd ymatebion llawn i'r cais hwn yn cael eu gwneud wedi'r cyfarfod ar y 27ain o Ebrill 2011.

E/24517 Caban Arlwyo Symudol (ailgyflwyno cais E/24017 a wrthodwyd ar 12.1.11) ym Mharc Dinefwr

Sylw: Dim gwrthwynebiad.

E/24606 Annedd dau lawr a garej arfaethedig (ailgyflwyno cais E/23732 a wrthodwyd ar 11/11/10) ar lain yn Nheras Thomas.
Sylw: Dim gwrthwynebiad.

Cof 2 / Ebr / 11 Penderfyniadau ynghylch Ceisiadau Cynllunio

E/24337 Newid defnydd fflat llawr gwaelod i siop fanwerthu yn 4, Stryd y Farchnad.
RHODDWYD

Cof 3 / Ebr / 11 Doedd dim Ceisiadau Cynllunio a dynnwyd yn ôl

Cof 4 / Ebr / 11 Apeliadau Cynllunio

i) Adran 78 Apêl gan Mr 7 Mrs GH & SJ Topali mewn perthynas â 25, Heol Diana ar gyfer estyniad dau lawr i'r annedd sydd eisoes yn bod.
Apêl wedi'i roi

Cof 5 / Ebr /11 Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd

1. Adroddodd y Cyng. Colin Jenkins fod CSG wedi mynd â'r offer chwarae o Faes Chwarae Maes y Farchnad. Gofynnwyd i'r Clerc i geisio esboniad mewn perthynas â phwy sy'n berchen ar yr offer.
2. Dywedodd y Clerc y byddai Gwasanaethau Stryd CSG yn ymchwilio i BT yn gosod postyn ffôn yng nghanol palmant.

Cof 6 / Ebr / 11 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd y Swyddog Technegol wedi cyflwyno adroddiad cynhwysfawr i'r Pwyllgor. Oherwydd nad oedd Mr Davies yn medru bod yn bresennol, byddai'r Cynghorwyr yn darllen yr adroddiad ac yn ei drafod yng nghyfarfod y Cyngor Llawn.

Cof 7 / Ebr / 11 Gohebiaeth

1. PCKO – copïau o'r Cynlluniau Llawn ar gyfer cynigion Gwalia ar gyfer yr Hen Farchnad Nwyddau. Nodwyd.
2. Copïau o lythyrau / deisebau oddi wrth drigolion lleol yn gwrthwynebu'r Cynlluniau ar gyfer y neuadd Farchnad, a anfonwyd i CSG. Nodwyd.
3. Oury Clark Ltd ynglŷn â llwybr troed Ysgubor Abad. Nodwyd.
4. S.Verney ynglŷn â llwybr troed Ysgubor Abad. Nodwyd.
5. Y Parch. M.Sadler yn cadarnhau bod cloc yr Eglwys yn eiddo i'r Dref ac nid i'r Eglwys.
6. Diogelu'r Cyhoedd CSG ynglŷn ag Ansawdd Aer yn Nhref Llandeilo. Nodwyd.
7. Gerwyn Thomas ynglŷn â chais am grant ar gyfer offer ymarfer corff i'w lleoli ym Mharc Le Conquet, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus.
8. Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed ynglŷn â meinciau'r Ynadon. Y Swyddog Technegol i gynghori.
9. Phil Snaith CSG ynglŷn â chwyn ymledol. Nodwyd.
10. Adran Cynllunio CSG ynglŷn ag arolwg o Dylluanod Ysgubor. Nodwyd.
11. Twyn landscapes – llythyr yn cyflwyno. Nodwyd.

Cof 8 / Ebr / 11 Unrhyw eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu at Tywi Afon yr Oesoedd i ofyn am restr o'r adeiladau y gosodwyd placiau arnynt.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00yh.